



**Cyfoeth
Naturiol
Cymru**
**Natural
Resources
Wales**

Ein cyf: 01AGAlon14

Tîm Safleoedd Rhyngwladol
Maes-y-Ffynnon
Penrhosgarnedd
Bangor
Gwynedd
LL57 2DW

Ebost: ymgyngoriadaga@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Ffôn: 0300 065 3000

31 Ionawr 2014

Annwyl Rhanddeiliad

YMGYNGHORIAD YNGHYLCH NEWIDIADAU ARFAETHEDIG I DAIR ARDAL GWARCHODAETH ARBENNIG (AGA):

AGA GLANNAU ABERDARON AC YNYS ENLLI /ABERDARON COAST AND BARDSEY ISLAND

AGA GRASSHOLM

AGA SKOKHOLM AND SKOMER

Sefydlwyd Cyfoeth Naturiol Cymru ar 1 Ebrill 2013 ac mae'n dwyn ynghyd gwaith Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru, yn ogystal â rhywfaint o waith Llywodraeth Cymru.

Un o'n dyletswyddau yw cynghori Llywodraeth Cymru ar ddynodi ardaloedd o dir a môr sydd o bwysigrwydd cenedlaethol a rhyngwladol i fywyd gwylt. Yn y gorffennol efallai eich bod wedi derbyn gohebiaeth oddi wrth Gyngor Cefn Gwlad Cymru ynghylch materion o'r fath.

Amcan y Gyfarwydddeb Adar Gwylt (2009/147/EC) yw hybu cadwraeth rhywogaethau o adar gwylt sy'n bodoli'n naturiol yn Ewrop, gan gynnwys dynodi Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig i warchod poblogaethau o rywogaethau o adar prin, bregus, sy'n mudo. Rydym yn ysgrifennu atoch i'ch hysbysu, fel rhywun a allai fod â diddordeb yn yr ardaloedd tir / a neu fôr sy'n cael eu cynnwys yn yr ymgynghoriad hwn, ein bod yn ymgynghori ar y cynigion i:

- ddiweddarau'r rhestrau o rywogaethau o adar sy'n cael eu hystyried o bwysigrwydd rhyngwladol ar gyfer dwy o'r ardaloedd gwarchodaeth arbennig; ac
- ymestyn tua'r môr ffiniau presennol y tair Ardal Gwarchodaeth Arbennig hyn.

Mae rhagor o fanylion ynghylch y cynigion ar gyfer y tair ardal yn yr wybodaeth amgaeedig ac ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru. Gellir dod o hyd i'r wybodaeth o dan "Ein gwaith > Ymgynghoriadau".

Cofiwch nad yw'r cynigion hyn yn gysylltiedig â'r ymgynghoriad ar Barthau Cadwraeth Morol yn 2012. Cafodd y cynigion hynny eu tynnu'n ôl gan Lywodraeth Cymru fis Gorffennaf 2013.

Rydym yn cynnal yr ymgynghoriad hwn ar ran Llywodraeth Cymru a byddwn yn adrodd yn ôl i Lywodraeth Cymru ar ganlyniadau'r ymgynghoriad. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal Asesiad Effeithiau ar y cynigion, er mwyn deall yn well beth yn union a allai effeithio ar bob defnyddiwr a bydd yn cyhoeddi adroddiad ar wefan Llywodraeth Cymru. Cyfrifoldeb Gweinidogion Cymru fydd penderfynu a ddylid cadarnhau'r newidiadau i'r Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig.

Yn amgaaedig mae taflen ynghylch yr ymgynghoriad a map(iau) cryno ar gyfer y safle(oedd) y credwn sydd fwyaf perthnasol i'ch diddordebau. Mae rhagor o wybodaeth ar y cynigion a sut i ymateb i'r ymgynghoriad ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru (cyfeiriad uchod).

Mae croeso, hefyd, i chi gysylltu â'ch swyddfa Cyfoeth Naturiol Cymru leol. Rydym wedi trefnu sawl sesiwn galw heibio, hefyd, lle gallwch drafod unrhyw gwestiynau wyneb yn wyneb. Mae manylion swyddfeydd Cyfoeth Naturiol Cymru lleol, a'r sesiynau galw heibio, yn y tabl isod. Os hoffech gopïau papur o unrhyw un o ddogfennau'r ymgynghoriad, cysylltwch â'ch swyddfa leol isod neu â'n Canolfan Gofal Cwsmeriaid ar 0300 065 3000.

Enw'r Safle	Swyddfa Ranbarthol	Cyswllt Ardal	Sesiynau Galw i Mewn	
			Dyddiad ac Amser	Lleoliad
Ardal Gwarchodaeth Arbennig Glannau Aberdaron ac Ynys Enlli /Aberdaron Coast and Bardsey Island	Cyfoeth Naturiol Cymru Plas Penrhos, Ffordd Penrhos, Bangor, Gwynedd LL57 2BX	Lucy Kay /Charlotte Williams Canolfan Gofal Cwsmer: Ymholiadau e-bost cyffredinol: ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk Ffôn: Ymholiadau cyffredinol: 0300 065 3000	DYDDIAD Dydd Llun 17 Chwefror 2014 AMSER: o 13:30 i 20:00	Clwb Hwyllo, Aberdaron Aberdaron Pwllheli LL53 8BD
Ardal Gwarchodaeth Arbennig Grassholm	Cyfoeth Naturiol Cymru Tŷ Llanion Parc Llanion Doc Penfro Sir Benfro SA72 6DY	Andrea Winterton /Alex Harding Canolfan Gofal Cwsmer: Ymholiadau e-bost cyffredinol: ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk Ffôn: Ymholiadau cyffredinol: 0300 065 3000	DYDDIAD Dydd Mercher 19 Chwefror 2014. AMSER: o 13:30 i 20:00	Neuadd y Ddinas Tyddewi Y Stryd Fawr Tyddewi Sir Benfro SA62 6SD
Ardal Gwarchodaeth Arbennig	Cyfoeth Naturiol Cymru Tŷ Llanion	Andrea Winterton /Alex Harding Canolfan Gofal Cwsmer:	DYDDIAD Dydd Iau 20	Neuadd y Pentref Marloes


Skokholm and Skomer	Parc Llanion Doc Penfro Sir Benfro SA72 6DY	Ymholiadau e-bost cyffredinol: ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk Ffôn: Ymholiadau cyffredinol: 0300 065 3000	Chwefror 2014 AMSER: o 13:30 i 20:00	Marloes, Hwlfordd, Sir Benfro SA62 3AZ
---------------------	--	---	--	---

Mae'r cyfnod ymgynghori o 31 Ionawr 2014 hyd at 25 Ebrill 2014. Dylai sylwadau ysgrifenedig gyrraedd erbyn hanner nos 25 Ebrill 2014 naill ai drwy e-bost ymgynghoriadaga@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk neu drwy'r post at Dîm Safleoedd Rhyngwladol, Cyfoeth Naturiol Cymru, Maes y Ffynnon, Bangor, LL57 2DW. Defnyddiwch y ffurflen ymateb sydd ar gael ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru os gwelwch yn dda.

Ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru'n adrodd i Lywodraeth Cymru ynghylch y sylwadau a'r barnau a dderbyniwyd. Bydd adroddiad cryno'n cael ei gyhoeddi ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru, gan gynnwys sylwadau (heb grybwyll enwau).

Bydd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd yn ystyried ein hadroddiad, a'r ymatebion a dderbyniwyd, wrth benderfynu a ddylid bwrw ymlaen gyda'r newidiadau arfaethedig i'r Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig. Yna, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru'n ysgrifennu at y rhanddeiliaid i'w hysbysu am benderfyniad y Gweinidog.

Yn gywir



Ceri Davies

Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio

Yn amgaaedig: Map A3 o AGAa Glannau Aberdaron ac Ynys Enlli /Aberdaron Coast and Bardsey Island
Map A3 o AGAa Grassholm
Map A3 o AGAa Skokholm & Skomer
Taflen